Ffatrïoedd a Busnesau a Gynorthwyir

Cwestiynau Cyffredin

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

75% wedi'i ailgylchu
recycled

ISBN 978 0 7504 5005 8
© Hawlfraint y Goron Ionawr 2009
CMK-22-20-404
D5650809

RHAGAIR

Dros y tair blynedd ddiwethaf, bu'r Tasglu Caffael Busnes yr wyf yn Gadeirydd arno yn gweithio i sicrhau dull cyson o gaffael ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru ac i roi sylw i bryderon y sefydliadau sy'n llai o ran maint ond eto'n awyddus i gyflenwi.

Un o'r mentrau a oruchwyliwyd gan y Tasglu oedd y fenter i helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i ymgysylltu mwy â ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir, megis Remploy. Mae'n eglur bellach bod deddfwriaeth Ewropeaidd[1] yn caniatáu i'r Aelod-wladwriaethau neilltuo contractau yn benodol ar gyfer ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir, fel a esbonnir yng nghanllawiau Swyddfa Masnach y Llywodraeth (SMLl)[2]. Yn ogystal, ceir gwneud hynny yn achos contractau sydd â'u gwerth uwchlaw ac islaw trothwy caffael yr UE.

Rwyf i, a Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd, wedi ymrwymo i gefnogi cyflogi personau anabl, ond cefais fy siomi gan ganlyniad arolwg diweddar, a oedd yn nodi cyn lleied o ddefnydd a wneir gan y sector cyhoeddus yng Nghymru o'r pwerau sydd eisoes ar gael iddo i wahaniaethu yn gadarnhaol o blaid ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir wrth ddyfarnu contractau. Er mwyn ymateb i adborth a oedd yn awgrymu bod y sector cyhoeddus braidd yn ofnus ynghylch defnyddio deddfwriaeth o'r fath, mae'r is-grŵp o'r Tasglu sy'n ymdrin â Busnesau a Gynorthwyir, ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, y proffesiwn cyfreithiol a chyrff eraill sydd â diddordeb, fel a restrir isod, wedi paratoi'r canllaw 'Cwestiynau Cyffredin' hwn, a ddylai chwalu rhai o'r mythau a pheth o'r nerfusrwydd ynghylch cymhwyso'r ddeddfwriaeth.

Rwy'n annog y sector cyhoeddus yn daer (yn ddarostyngedig i gydymffurfio ag unrhyw reolau ariannol mewnol neu allanol), i glustnodi canran o'i wariant ar gyfer ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir, trwy neilltuo contractau yn uniongyrchol ar eu cyfer, trwy annog eu cynnwys fel is-gontractwyr neu bartneriaid mewn contractau mawr, a thrwy ddefnyddio'r Contract Fframwaith a baratoir dan arweiniad Gwerth Cymru. Manteisiaf ar y cyfle hwn hefyd i atgoffa caffaelwyr yn y sector cyhoeddus am un o ymrwymiadau'r sector, a wnaed yn 'Agor Drysau - y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig' sef yr ymrwymiad i "ddefnyddio criteria datblygu cynaliadwy wrth bennu gwerth am arian, gan gynnwys asesu effaith ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol".

Mae'r effeithiau cadarnhaol, yn gymdeithasol ac yn economaidd, a ddaw o gydweithio rhwng y Sector Cyhoeddus a ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir, yn hunanamlwg.

Andrew Davies AC

Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

1 Erthygl 19 Gyfarwyddeb 2004/18/EC ar Gaffael Cyhoeddus

2 "OGC guidance on reserved contracts for supported factories and businesses" a gyhoeddir yn fuan

NEGESEUON O GEFNOGAETH

Mae TUC Cymru a'm Hundeb Llafur i fy hunan, y GMB, yn croesawu'r ddogfen 'Cwestiynau Cyffredin' hon ynglŷn â Ffatrïoedd a Busnesau a Gynorthwyir. Ers llawer blwyddyn buom yn ymgyrchu'n weithgar i newid y ddeddfwriaeth ar y lefel Ewropeaidd ac yn cyfrannu at baratoi a chyflawni rheoliadau ar lefel y DU, er mwyn rhoi cyfle i'r sector cyhoeddus weithredu yn gadarnhaol i hyrwyddo cyflogaeth i bobl ag anableddau, mewn ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir.

Mae'r heriau a wynebir gan y bobl sy'n ymdopi ag anabledd yn anferthol, a gall ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir chwarae rhan amlwg a gwerthfawr trwy ddarparu cyflogaeth sgiliau uchel, hyfforddiant parhaus, rhyngweithio cymdeithasol, mentora a chefnogaeth, i helpu pobl ag anableddau i fod yn fwy annibynnol ac i wneud cyfraniad llawn i fyd gwaith ac i'w cymunedau. Mae'r ffatrïoedd a'r busnesau hyn yn darparu cynnyrch a gwasanaethau o'r safon ddiweddaraf, sy'n cynnwys dillad diogelwch i filwyr ac i'r heddlu, dodrefn a ffitiadau o ansawdd uchel, a chymhorthion diogelwch. Mae'n hanfodol ein bod yn darparu llif cyson o waith i'r ffatrïoedd a'r busnesau a gynorthwyir, er mwyn cynnal y llwybr mynediad hwn i gynifer ag y bo modd o'r bobl sy'n ymdrechu mor galed i integreiddio â'r farchnad lafur.

O ganlyniad i Erthygl 19 o Gyfarwyddeb yr UE, cawn gyfleoedd yn awr i neilltuo contractau ar gyfer ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir, sef sy'n ddull cyfreithlon o sicrhau ffrwd gyson o waith o ansawdd uchel i'r sefydliadau hynny. Mae hwn yn ddatblygiad unigryw ym maes rheoliadau caffael, sy'n deillio o gydnabod y budd cyffredinol, yn ariannol a chymdeithasol, a ddaw o ddarparu cyflogaeth i bobl anabl. Fel mater o bolisi, dylai pob awdurdod contractio yng Nghymru amcanu i osod un contract, o leiaf, gyda ffatri neu fusnes a gynorthwyir.

Pleser i mi yw cael cydweithio â chynrychiolwyr y sector cyhoeddus a ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir i ddatblygu mentrau a fydd yn hyrwyddo ffatrïoedd a busnesau a o'r fath. Gan hynny, rwy'n cymeradwyo'r canllaw 'Cwestiynau Cyffredin' hwn yn fawr, fel dogfen werthfawr a gynlluniwyd er mwyn rhoi arweiniad a hyder i'r sector cyhoeddus i fanteisio ar Erthygl 19; ac yr wyf yn awr yn gofyn i'r sector cyhoeddus yng Nghymru ailedrych ar ei gefnogaeth i'r ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir, a chynyddu'r gefnogaeth honno yn sylweddol.

Allan Garley - GMB

Cynrychiolydd TUC Cymru ar yr Is-grŵp Busnesau a Gynorthwyir

FFATRÏOEDD A BUSNESAU A GYNORTHWYIR - CWESTIYNAU CYFFREDIN

1. Pa gyfleoedd y mae Erthygl 19 yn eu cynnig i'r sector cyhoeddus yng Nghymru?

Mae Erthygl 19 yn rhoi pŵer i'r Aelod-wladwriaethau neilltuo'r hawl i gymryd rhan mewn gweithdrefnau tendro i ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir yn unig - h.y. fel na chaiff unrhyw ddarparwr arall dendro. Deddfir hyn yng Nghymru a Lloegr yn rheoliad 7 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 (OS 2006/5), sy'n defnyddio geiriad cyffelyb i'r Erthygl. Yn y ddau achos, mae'r ddeddfwriaeth yn datgan y ceir neilltuo'r hawl i gymryd rhan mewn gweithdrefnau tendro i ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir yn unig. Dywedir hyn mewn iaith ddiamwys, ac fel y cyfryw gellir dibynnu ar yr awdurdod hwnnw.

Gellir defnyddio Erthygl 19 ar gyfer contractau sydd uwchlaw neu islaw'r trothwy gwerth OJEU perthnasol. Pan fo'r contract islaw'r trothwy OJEU, mae gan yr awdurdod prynu ddau opsiwn. Caiff naill ai:

(a) defnyddio'r weithdrefn OJEU yn wirfoddol ar gyfer contract sydd islaw'r trothwy; neu

(b) datgan yn agored ym mha bynnag hysbyseb neu weithdrefn caffael arall a ddefnyddir gan yr awdurdod, bod y contract wedi ei neilltuo ar gyfer ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir.

Yn achos contractau sydd hwyrach yn rhy fawr neu'n rhy gymhleth i ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir eu trin ar eu pen eu hunain, mae gan gyrff cyhoeddus yr opsiwn hefyd o annog endidau mawr i gynnwys ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir yn eu cadwyni cyflenwi, fel is-gontractwyr neu bartneriaid consortiwm.

2. Pam y dylid neilltuo contractau ar gyfer Ffatrïoedd a Busnesau a Gynorthwyir?

Polisi CCC yw rhoi cyfleoedd i bobl ag anableddau, cyn belled ag y bo modd, ymuno â'r farchnad lafur. Dylid defnyddio gwariant cyhoeddus, felly, mewn ffordd sy'n cefnogi'r amcan hwnnw pan yw'n ymarferol. Un ffordd o wneud hynny yw trwy neilltuo contractau i ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir. Mae hynny hefyd yn cyfrannu at gyrraedd amcanion Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol yr awdurdod sy'n gosod y contract.

Fel a ddywedir yn rhagair y Gweinidog uchod, dylai'r awdurdodau contractio yng Nghymru amcanu i osod canran o'r contractau gyda ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir. Dylai pob awdurdod contractio, felly, geisio gosod o leiaf un contract gyda ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir.

Nid oes cyfyngiad ar y maint na'r math o gontract y gellir ei neilltuo o dan y ddarpariaeth hon; ac y mae'r egwyddor yn gymwys i brif gontractau mawr, yn ogystal â chontractau bach am nwyddau neu wasanaethau arbenigol. Trwy ddefnyddio ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir, gellir cynyddu'r amrywiaeth o gyflenwyr yn y sector cyhoeddus, a helpu i ddarparu nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd da.

Dylid annog prif gontractwyr yn rhagweithiol hefyd, naill ai'n wirfoddol neu trwy gyfrwng telerau contract anwahaniaethol priodol, i ddefnyddio ffatrïoedd a busnesau a

gynorthwyir yn rhan o'u cadwyni cyflenwi ar y contractau cyhoeddus mwyaf, neu'r contractau mwyaf cymhleth. Gellid gwneud hyn, er enghraifft, trwy reoli'r berthynas â'r cyflenwr a thrwy bwysleisio mor bwysig i'r Llywodraeth yw'r agenda 'cyflogaeth a gynorthwyir'. Bydd defnyddio ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir yn is-gontractwyr hefyd yn helpu sefydliadau o'r sector preifat i gyrraedd eu targedau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol.

3. Sicrhau Gwerth am Arian

Polisi caffael Llywodraeth Cynulliad Cymru yw fod rhaid i unrhyw bryniadau cyhoeddus fod yn seiliedig ar werth am arian. Fodd bynnag, nid yw sicrhau gwerth am arian yn gyfystyr â chanfod y tendr sy'n cynnig y pris isaf; mae'n ymwneud yn hytrach â'r cyfuniad gorau o gost oes-gyfan ac ansawdd sy'n bodloni gofyniad y defnyddiwr. Caiff "gofyniad y defnyddiwr", yn y cyd-destun hwn, gynnwys cyflawni'r swyddogaethau cymdeithasol a ymgymerir trwy gydweithio â ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir, megis ychwanegu at gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, a chynyddu annibyniaeth unigolion anabl.

Rhaid cofio hefyd bod ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir, fel unrhyw fusnes arall, yn gweithredu mewn marchnad gystadleuol, ac yn gwerthu eu nwyddau a'u gwasanaethau i fusnesau eraill yn ogystal ag i'r sector cyhoeddus. Rhaid iddynt, felly, ddarparu gwerth da er mwyn goroesi, a chamgymeriad yw tybio y byddant o anghenraid yn ddrutach neu'n darparu salach gwerth am arian.

Gall gwerth am arian, felly, fynd law-yn-llaw â chydweithio â ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir. Rhoddir sylwadau manylach ar yr hyn y gellir ei wneud i sicrhau gwerth am arian yn Adran 14 isod.

4. Beth yw "ffatri neu fusnes a gynorthwyir"?

Mae'r term 'gweithdai gwarchodol' ('*sheltered workshops*') yn tarddu o'r ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Y term a ddefnyddir yn y DU yw ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir ('*supported factories and businesses*'). Diffinnir y termau hyn yn y Rheoliadau[3] fel a ganlyn:

Ffatri a gynorthwyir yw: *'Sefydliad lle mae mwy na 50% o'r gweithwyr yn bersonau anabl sydd, oherwydd natur a difrifoldeb eu hanabledd, yn analluog i ymgymryd â gwaith yn y farchnad lafur agored.'*

Busnes a gynorthwyir yw: *'Gwasanaeth lle mae mwy na 50% o'r gweithwyr yn bersonau anabl sydd, oherwydd natur a difrifoldeb eu hanabledd, yn analluog i ymgymryd â gwaith yn y farchnad lafur agored.'*

Rhaglen gyflogaeth a gynorthwyir yw: '*Cynllun y darperir gwaith oddi tano ar gyfer personau anabl, a lle mae mwy na 50% o'r gweithwyr a gefnogir felly yn bersonau anabl sydd, oherwydd natur a difrifoldeb eu hanabledd, yn analluog i ymgymryd â gwaith yn y farchnad lafur agored. O dan Gyfarwyddeb yr UE, cyfeirir at y rhain fel rhaglenni cyflogaeth warchodol ('sheltered employment programmes').*

Y prawf trothwy 50%-plws yw'r unig brawf y mae'n ofynnol i'r sefydliad ei fodloni. Mae'r disgrifiad "a gynorthwyir" braidd yn gamarweiniol, gan oes angen i'r sefydliad fod yn derbyn cyllid gan lywodraeth nac o unman arall. Nid oes angen ychwaith i'r sefydliad fod yn fenter elusennol, cymunedol neu gymdeithasol (er ei bod yn debygol mai mentrau o'r mathau hynny fydd llawer o'r sefydliadau).

3 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 (OS Rhif 2006/05)

5. Beth yw “anabledd”?

Mae’r Gyfarwyddeb a’r rheoliadau yn diffinio “personau anabl” (“*disabled persons*”) fel personau sydd, oherwydd natur a difrifoldeb eu hanabledd, yn analluog i ymgymryd â gwaith yn y farchnad lafur agored.

Nodir y diffiniad o “anabledd” (“*disability*”) yn adran 1 o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995. Yno, diffinnir person anabl fel rhywun sydd ag amhariad corfforol neu feddyliol sy’n cael effaith sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol arferol. Mae Atodlen 1 i’r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn cynnwys darpariaethau pellach sy’n ymhelaethu ar y diffiniad yn adran 1. Er enghraifft, darperir diffiniadau o amhariad ac anffurfiad, etc.

6. A oes rhaid i 50% plws o staff y sefydliad fod yn gyflogeion anabl, ynteu a yw unrhyw ‘weithwyr’, e.e. gweithwyr gwirfoddol, yn cyfrif tuag at y cyfanswm

Y term a ddefnyddir yn rheoliad 7 yw ‘gweithiwr (“*worker*”). Mae ei ystyr yn ehangach nag ystyr ‘cyflogai’ (“*employee*”). Mae’r diffiniad o “gweithiwr” (“*worker*”) o dan Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1995 yn cynnwys pobl sydd o dan gontract cyflogaeth ffurfiol yn ogystal â rhai sy’n cyflawni gwaith neu wasanaethau ar sail fwy anffurfiol (ac eithrio yng nghwrs busnes neu fel person hunangyflogedig). Felly, ceir cyfrif unrhyw bersonau sy’n cyflawni gwaith dilys yn y busnes tuag at y trothwy 50%-plws (ond nid os ydynt yn gontractwyr allanol nac yn hunangyflogedig). Gellid cynnwys, er enghraifft, gweithwyr a secondiwyd neu weithwyr gwirfoddol.

7. Sut y gallaf wirio bod busnes yn ffatri neu fusnes a gynorthwyir?

Y prawf hanfodol yw bod gan y busnes dros 50% o weithwyr anabl.

Y cam cyntaf y dylid ei gymryd yw gofyn i’r ffyrmiau sy’n tendro ddarparu data ar gyfanswm nifer eu gweithwyr a’r cyfanswm a ystyrir yn anabl o blith y nifer hwnnw.

Mewn gwirionedd, mae cael prawf pendant yn broblematig. Hwyrach y byddai modd gofyn am dystiolaeth megis cofnodion o hawliadau budd-dal, etc, ond byddai hynny wedyn yn creu problemau enbyd wrth geisio goresgyn y cyfyngiadau yn Neddf Diogelu Data 1998 ar rannu data personol sensitif. Yn ogystal, nid yw pawb yn anabl sy’n hawlio budd-dal; ac nid yw pawb sy’n hawlio budd-dal yn anabl.

Mae’n bosibl cael tystiolaeth ategol ddangosol trwy wirio a yw’r busnes wedi ei gofrestru â Chymdeithas Busnesau a Gynorthwyir Prydain (BASE) neu’r Cyfeiriadur Ar-Lein o Fusnesau a Gynorthwyir (www.supportedbusiness.org.uk). Fodd bynnag, ni ddylid dibynnu ar hynny fel yr unig ffactor sy’n penderfynu, gan mai ffyrmiau Prydeinig yn unig a gofrestrir yn y safleoedd hyn, a gallai allgáu busnesau eraill gamwahaniaethu yn erbyn busnesau o wladwriaethau eraill yr UE.

Yn y pen draw, bydd rhaid i’r awdurdod prynu ddibynnu i ryw raddau ar onestrwydd y sefydliad sy’n tendro, ynghyd â chefnogaeth pa bynnag wiriadau y tybia’r awdurdod sy’n briodol (e.e. ymweliadau, cyfweliadau, etc).

8. A yw Erthygl 19 yn gymwys i ffyrmiau cymdeithasol/ mentrau cymdeithasol hefyd?

Nac ydyw, yn anffodus, oni bai bod y ffyrmiau/ mentrau hynny hefyd yn cyrraedd y trothwy o fwy na 50% o weithwyr anabl.

9. Pa fath o gontractau sy'n briodol ar gyfer ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir? Sut y gallaf ddarganfod beth y gall busnes a gynorthwyir ei gyflenwi?

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau, ar y cyd â Remploy a sefydliadau eraill, wedi sefydlu gwefan (www.supportedbusiness.org.uk) sy'n darparu cronfa ddata chwiliadwy o ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir, eu lleoliadau a'r cynhyrchion a gwasanaethau a gynigir ganddynt. Gweler hefyd www.base-uk.org/business, gwefan arall sy'n rhoi manylion am nwyddau a gwasanaethau sydd ar gael gan ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir yng Nghymru a mannau eraill yn y DU. Mae'r gwefannau hyn yn fan cychwyn buddiol.

Yn ogystal, gall eich sefydliad chi drefnu digwyddiad "cwrdd â'r prynwr" a gwahodd cynrychiolwyr ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir i drafod anghenion caffael tebygol eich sefydliad, a'u gallu i'w bodloni.

Gall llawer o'r dulliau a ddefnyddir i annog BBaChau i gyfranogi (gweler Agor Drysau http://www.buy4wales.co.uk/PRP/10672,file.dld), megis annog cydweithio neu ffurfio consortia ymhlith sefydliadau i gynnig am gontractau mawr, fod yn effeithiol hefyd o'u defnyddio mewn perthynas â ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir.

10. Sut y gallaf gael digon o ymateb i sicrhau cystadleuaeth ddilys?

Y ffordd orau yw trwy gynnal ymchwil a/neu drafodaeth cyn tendro fel a awgrymir uchod, er mwyn canfod pa nifer o ddarparwyr sy'n fodlon ac yn alluog i gwrdd â'ch anghenion.

Yn ychwanegol, caniateir hysbysebu yn gydamserol (ond nid cyn gyhoeddi'r hysbysiad OJEU os defnyddir un) mewn mannau sy'n fwy tebygol o ddod i sylw ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir. Fel yn achos unrhyw dendr, cewch gysylltu yn uniongyrchol â phartïon sydd â diddordeb, i roi gwybod iddynt am fodolaeth y broses tendro, ar yr amod na roddir unrhyw fantais i'r partïon hynny yn y broses o dendro, ac nad ydych yn cysylltu â hwy cyn cyhoeddi unrhyw hysbysiad OJEU.

11. A gaf i neilltuo contractau ar gyfer ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir yn unig, islaw'r trothwy OJEU?

Cewch. Tra bo'n orfodol defnyddio'r weithdrefn OJEU uwchlaw'r trothwy tendro, mae modd hefyd i sefydliadau ddefnyddio'r weithdrefn yn wirfoddol ar gyfer contractau sydd â'u gwerth islaw'r trothwy (ac y mae llawer sefydliad yn gwneud hynny). Mae defnyddio hysbysiad OJEU yn y cyd-destun hwn yn ffordd ddefnyddiol o hysbysebu'r ffaith bod y contract yn un a neilltuir.

Fel dewis arall, nid oes rheswm pam na ddylech fod yn neilltuo contract sydd islaw'r trothwy, yn yr hysbyseb neu'r galwad i gystadlu a gyhoeddir gennych trwy gyfrwng rhyw borthol heblaw OJEU.

12. A oes dewisiadau eraill, yn hytrach na neilltuo yn llwyr?

Gall rhai contractau fod yn rhy fawr neu'n rhy gymhleth i'w cynnig i ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir, ond er gwaethaf hynny, mae modd i ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir chwarae rhan fel is-gontractwyr neu bartneriaid i'r prif ddarparwr.

Mae Erthygl 19 yn datgan y cewch fynnu (fel dewis arall yn hytrach na neilltuo'n llwyr) bod contract yn cael ei gyflawni "yng nghyd-destun" ("*in the context of*") ffatri neu fusnes a gynorthwyir; h.y. nid oes raid i'r darparwr ei hunan fod yn ffatri neu fusnes a gynorthwyir, ond rhaid iddo osod elfen benodedig o'r cyflenwadau neu'r gwasanaethau gyda sefydliad sydd yn ffatri neu fusnes a gynorthwyir.

Mae amryw o opsiynau ar gael, sy'n amrywio o ran eu ffurfioldeb. Er enghraifft:

- annog cynigwyr am gontract mawr i ystyried defnyddio ffatrïoedd neu fusnesau a gynorthwyir yn eu cadwyn gyflenwi, ond heb wneud hynny yn ofyniad ffurfiol. Bydd tendrwyr yn tueddu i ymaddasu i gydymffurfio â dymuniad yr awdurdod contractio, er mwyn gwella'u cyfle o ennill;
- ychwanegu telerau yn y contract, neu ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer amcanion cymdeithasol a chymunedol, gan gynnwys ymgysylltu â ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir. Gellir gwneud lefel cydymffurfiaeth cynigion y tendrwyr â gofynion o'r fath yn rhan o'r broses tendro (er y dylai hynny barhau'n fater "gwerth ychwanegol", ac nid yn unig griterion nac yn griterion penderfyniadol);
- rhannu'r caffael yn lotiau, a neilltuo un neu ragor o'r lotiau ar gyfer ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir.

Rhaid rhoi sylw manwl i delerau'r contract, y dangosyddion perfformiad allweddol, etc, er mwyn sicrhau eu bod yn anwahaniaethol, a bod y prif gontractwr yn parhau'n gyfrifol am bob is-gontractwr, - ***Pe bawn yn gofyn i brif gontractwr (nad yw'n ffatri neu fusnes a gynorthwyir) ddefnyddio busnes a gynorthwyir fel is-gontractwr, a oes risg y cawn fy nal yn gyfrifol am yr is-gontractwr pe bai rhywbeth yn mynd o'i le?***

Bydd hyn yn dibynnu ar eiriad y contract a ddefnyddir gennych. Os defnyddir geiriad sy'n datgan bod rhaid i brif gontractwyr gymryd cyfrifoldeb am bob un o'u hisgontractwyr (sef y geiriad safonol yn y rhan fwyaf o gontractau'r sector cyhoeddus), yna ni ddylai'r ffaith eich bod wedi gofyn yn gyffredinol am gynnwys ffatrïoedd neu fusnesau a gynorthwyir mewn elfen o'r contract wneud unrhyw wahaniaeth. Dylech osgoi rhagnodi unrhyw ffatri neu fusnes penodol a gynorthwyir, a bodloni ar gyfeirio'r prif gontractwyr at y ffynonellau gwybodaeth priodol. Mewn amgylchiadau o'r fath gall prif gontractwyr ofyn am wneud newidiadau penodol yn y contract; dylech fod yn ofalus ynghylch derbyn y newidiadau hynny, a cheisio cyngor cyfreithiol.

Yn gyffredinol, os ydych am argymell bod prif gontractwyr yn defnyddio ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir yn is-gontractwyr, mae'n well gwneud hynny trwy annog prif gontractwyr yn ystod y broses tendro i ddefnyddio ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir, ac nid trwy osod gofyniad pendant y dylent ddefnyddio ffatri neu fusnes penodol a gynorthwyir. Trwy ddilyn y llwybr o "annog" yn unig, yn hytrach na rhagnodi ffatri neu fusnes penodol a gynorthwyir, byddwch yn lleihau yn sylweddol unrhyw risg yr ystyrir yr is-gontractwr yn un a "enwebwyd".

Os yw'r contract o faint digonol neu os bydd yn parhau am gyfnod hir, gellir cynnwys telerau contract neu DPAau yn rhan o'r broses tendro, a fydd yn ffafrio cynnwys ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir (fel yn adran 12 uchod).

13. Sut y dylwn fynd ati i neilltuo contract, neu ddefnyddio un o'r dulliau amgen?

13.1 Neilltuo contract

Os ydych am hysbysebu yn OJEU, y cyfan y mae'n rhaid ichi ei wneud yw datgan yn yr hysbysiad OJEU bod y contract wedi ei neilltuo ar gyfer ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir. Gwneir hynny trwy roi croes yn y blwch ym mharagraff III.2.4 o'r Hysbysiad Contract OJEU safonol; a byddai'n fuddiol cynnwys nodyn hefyd i'r perwyl hwnnw yn yr adran "Gwybodaeth Ychwanegol" rhag ofn na fydd cynigwyr posibl wedi sylwi ar y groes yn y blwch.

Unwaith y byddwch wedi gwneud hynny, dilyner yr un weithdrefn yn union ag mewn ymarferiad tendro arferol (ac eithrio mai ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir yn unig a fydd yn gymwys i dendro).

13.2 Dulliau amgen

Os na neilltuir y contract yn llwyr, ni ddylid rhoi croes yn y blwch perthnasol ym mharagraff III.2.4 of o'r Hysbysiad Contract OJEU safonol. Hanfod y dull hwn yw fod yr holl weithredwyr economaidd cymwysedig yn rhydd i gymryd rhan, ac ni ddylid eu hallgáu yn anfwriadol rhag cyfranogi. Dylid disgrifio, yn yr adran Gwybodaeth Ychwanegol, yr union ddull y mae'r awdurdod sy'n prynu yn bwriadu ei ddefnyddio i annog partneriaeth â ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir, a nodi hynny yn fwy manwl hefyd yn y dogfennau tendro.

Os byddwch yn defnyddio lotiau, rhaid nodi yn eglur, yn adran "Lotiau" yr Hysbysiad Contract OJEU, pa lot sydd i'w chyflawni gan ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir, a rhaid ychwanegu esboniad priodol unwaith eto yn yr adran "Gwybodaeth Ychwanegol".

Os oes bwriad i bennu telerau contract penodol (e.e. mynnu bod cynigwyr yn darparu datganiad, a fydd yn eu rhwymo os enillant, o'r modd y byddant yn cynnwys ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir wrth gyflawni'r contract), bydd rhaid drafftio'r telerau hynny yn llawn a'u hanfon allan gyda'r dogfennau tendro.

Os eich unig fwriad yw annog y cynigwyr i ymgysylltu â ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir, ac nad ydych yn bwriadu gwneud hynny yn ofyniad tendro ffurfiol, dylech ddatgan hynny, naill ai yn adran "Gwybodaeth Ychwanegol" yr hysbysiad OJEU neu yn y dogfennau tendro pan anfonir hwy allan.

14. Sut y gellir cysoni neilltuo contractau, neu annog cynnwys ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir, â gwerth am arian, rheolau caffael, rheolau sefydlog a chyfarwyddiadau ariannol sefydlog fy sefydliad i?

Mae'r criterion "**y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd**", a ddefnyddir yn y mwyafrif helaeth o achosion, yn cynnwys ffactorau na ellir, weithiau, eu mesur mewn termau economaidd (ond rhaid i'r ffactorau fod yn rhai y gellir eu gwerthuso yn wrthrychol). Gall hyn gynnwys (ymhlith ffactorau eraill) cefnogi nodau ac amcanion ehangach y sefydliad. Er enghraifft, os rhoddir cyfle i

bobl anabl weithio, bod yn fwy hunangynhaliol a chael mwy o reolaeth ar y dewisiadau yn eu bywydau, mae'n ffaith adnabyddus y bydd eu canlyniadau iechyd yn gwella ac y byddant yn achosi llai o faich ar yr adnoddau ac at y system fudd-daliadau.

Wrth ystyried a ddylid neilltuo contract, dylai corff cyhoeddus asesu, yn gyntaf oll, a oes modd i ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir fodloni ei anghenion. Gellwch asesu hynny trwy gymharu'r anghenion caffael, sef y nwyddau neu'r gwasanaeth y bwriedwch eu prynu, â'r rheini a gynigir gan ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir; er enghraifft trwy edrych ar y mathau penodol o nwyddau neu wasanaeth y gallant eu darparu sy'n bodloni eich gofyniad. Yn ychwanegol, dylai cyrff cyhoeddus gymharu neu feincnodi'r ansawdd, prisiau a galluoedd cynhyrchu posibl, gyferbyn â gweddill y farchnad a chyferbyn â chontractau blaenorol am nwyddau/gwasanaethau cyffelyb. Dylid gwneud asesiad o'r fath cyn cychwyn y broses caffael ffurfiol - hynny yw, wrth i'r awdurdod sy'n contractio ddiffinio'i anghenion a pharatoi ei achos busnes.

Tra'n paratoi'r achos busnes, dylai'r awdurdod sy'n contractio gadw mewn cof, pan fo'n briodol, unrhyw fuddion ehangach posibl i'r gymdeithas sy'n berthnasol i'r broses caffael. Mae hyn yn golygu cymryd i ystyriaeth y buddion cymdeithasol ehangach yn ogystal â chost uniongyrchol y contract. Er nad yw'n bosibl bob amser priodoli gwerth ar y farchnad i rai o'r buddion hyn, ni ddylid eu hanwybyddu. Yn hytrach, dylid eu hasesu ar sail y manteision cymdeithasol gwirioneddol a ddaw ohonynt, yn erbyn unrhyw gostau. Gall y buddion hyn gynnwys y canlynol:

- Cyfrannu i ymrwymiadau LICC a Llywodraeth y DU i wella'r mynediad at gyfleoedd cyflogaeth i bobl anabl;
- Ychwanegu at yr amrywiaeth o gyflenwyr i'r sector cyhoeddus, a thrwy hynny helpu i ddarparu gwell nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cwrdd ag anghenion y defnyddwyr;
- Manteisio ar y gronfa ehangach o ddoniau a sgiliau, sydd ar gael yn y gweithlu ond nas defnyddir ar hyn o bryd;
- Gwella cynhwysiant cymdeithasol a'r rhyngweithio â phobl anabl, yn y farchnad lafur ac o fewn eu cymunedau.

Mae llawer o'r ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir yn gweithredu mewn 'cilfachau' arbenigol o'r farchnad, ac adlewyrchir hynny yn aml yn ansawdd uchel y nwyddau a gynhyrchir ganddynt. Gan eu bod wedi arfer arbenigo, mae llawer ohonynt yn hyblyg ynglŷn âr hyn y gallant ei gynnig i'w cwsmeriaid, ac felly mae defnyddio ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir yn aml yn ffordd gost-effeithiol o gontractio.

Mae'r sefydliadau y neilltuir iddynt yr hawl i gynnig am gontractau cyhoeddus o dan y ddarpariaeth contractau a neilltuir yn parhau, serch hynny, i gystadlu ymhlith y grŵp o gyflenwyr sy'n gymwys i gynnig. Mae'n debygol yr adlewyrchir y gystadleuaeth honno yn y tendrau a gyflwynir, gan y bydd yr awdurdodau yn parhau i ddyfarnu'r contractau ar sail y gwerth am arian.

Fel ym mhob achos, unwaith y bydd contract wedi ei ddyfarnu a'i weithredu am gyfnod, bydd yr awdurdodau sy'n contractio yn asesu perfformiad y contract. Yn ystod y broses honno, gall yr awdurdodau graffu ar y canlyniadau gwirioneddol, yr hyn a gyflenwyd gyferbyn â'r disgwyliad, ac i ba raddau y cafwyd gwerth am arian. Mewn achosion pan fo ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir

wedi eu defnyddio ac wedi cyflenwi gwerth am arian, gellir manteisio ar y profiadau cadarnhaol a'r buddion hynny i annog rhagor o benderfyniadau i neilltuo contractau caffael yn y dyfodol.

Mae'n bosibl y bydd angen gwneud mân newidiadau mewn Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog i ganiatáu neilltuo, neu ganiatáu mesurau eraill i gynnwys ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir.

15. Pa gamau y gallaf eu cymryd i hwyluso tendro gan ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir?

Yn gyffredinol, ceisiwch osgoi unrhyw orgymhlethu diangen neu orddibyniaeth ar ddogfennau safonol sy'n cynnwys rhestrau maith o gwestiynau, llawer ohonynt efallai yn amherthnasol. Cyfyngedig yw adnoddau'r ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir, fel y BBaChau hefyd, ac y mae'n bosibl na fyddai modd iddynt ddarparu'r holl wybodaeth a fynnir, neu y byddai'n rhy gostus iddynt wneud hynny. Mae'r mesurau a bennir yn y siarter Agor Drysau: Y Siarter dros Gaffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig i annog BBaChau i gyfranogi, yn berthnasol hefyd i ffatrïoedd a busnesau a gynorthwyir.

Yn y dogfennau tendro, dylech gynnwys ddatganiad i'r perwyl: os oes ar y cynigwyr angen cael y dogfennau mewn fformat penodol, e.e. mewn print bras neu ar ddisg, neu trwy ddull electronig arall, gellir darparu hynny yn unol â pholisi eich sefydliad ar hygyrchedd neu amrywiaeth.

NB: Dylid nodi y darperir y Cwestiynau Cyffredin hyn gan Gwerth Cymru a'i gynghorwyr fel canllawiau cyffredinol yn unig, ac na ddylid eu defnyddio yn lle cymryd cyngor cyfreithiol manwl ynglŷn ag unrhyw amgylchiadau ffeithiol penodol a allai godi.